Nodiadau Fforwm Defnyddwyr Ogwen

10 Tachwedd 2016 4.30 y.h

Presennol

Iwan Jones (cadeirydd)	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
Alan Pritchard	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Gwyn Thomas	Blaen y Nant
Guto Roberts	Partneriaeth Cwm Idwal
Carys Dafydd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Arwel Johnston	Tenant
Edwina Johnston	Tenant
Dewi Davies	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Jon Cawley	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Gareth Dwyer	Cyngor Cymuned Capel Curig
Howard Hughes	Cyfieithydd

Ymddiheuriadau

Edward Jones; Dewi Roberts; Jeroen Verbeek; Saskia Wardeinier; Mal Creasy; Mark Roberts; Naomi Jones; Godfrey Northam; Rob Spencer; Mair Huws

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd a chan fod rhai aelodau yn mynychu am y tro cyntaf – gofynnodd i bawb gyflwyno ei hunain.

2. Nodiadau'r cyfarfod diwethaf.

a. Cywirdeb y nodiadau

- Gwnaed y sylw mai Verbeek oedd cyfenw Jeroen YHA yn hytrach na Wardeinier.
- Dywedodd Dewi Davies mai cot fleece oedd y bugeiliaid wedi eu derbyn yn hytrach na chrys t

b. Materion yn codi –

a. Trafnidiaeth gyhoeddus - roedd cytuno nad oedd y gwasanaeth bws wedi gwneud dim gwahaniaeth i'r sefyllfa traffig. Dywedodd Guto Roberts nad oedd gwybodaeth am y gwasanaeth wedi cael ei arddangos yn y man aros i fysiau

b. Gofynnwyd i Carys gysylltu gydag Iolo Tegid a gofyn iddo gynnig ychydig o ddyddiadau fyddai'n gyfleus er mwyn cyfarfod gyda chynrychiolaeth o'r Fforwm sef Guto Roberts; Dewi Davies ag Arwel Johnston.

c. Cafwyd trafodaeth gyffredinol am y sefyllfa barcio. Dywedodd Gareth Dwyer fod Alison Cousins wedi bod yn dod yma ar y penwythnosau a bod ganddi nifer o luniau o'r ceir yn parcio ar y pafin. Cytunodd Carys i gael y lluniau ganddi er mwyn eu danfon i Iolo Tegid.

Gofynnodd Gwyn Thomas be oedd wedi digwydd parthed y syniad i greu llwybr yr ochr yma i'r wal - fyddai'n fwy diogel na gorfod camu allan i'r ffordd i osgoi'r ceir. Dywedodd Guto Roberts nad oedd arian gan yr Ymddiriedolaeth i gario allan y gwaith. Ychwanegodd Alan Pritchard ei fod o'r farn y dylid hawlio'r pafin yn ôl yn hytrach nag edrych am ddatrysiad arall.

Atebodd Gwyn Thomas nad oedd eisiau gweld un o'i wyrion neu wyresau yn cael damwain – ac nad oedd yn ymddangos bod neb yn cymryd cyfrifoldeb am y sefyllfa.

Soniodd Guto Roberts am ei ymddangosiad ef a Gwyn Thomas ar y teledu yn son am y problemau parcio. Yn dilyn cais am ymateb gan Lywodraeth Cymru gan BBC Cymru dyma'r datganiad a gafwyd:

"We have commissioned a local safety study covering this stretch of road. This study is currently underway and is actively considering speed data. We have also made sure that the online petition is being considered as part of the safety study. Once we have received the study we will consider our next steps."

Mae Guto hefyd wedi dechrau deiseb ar-lein ac ar hyn o bryd mae 213 o bobl wedi ei harwyddo.

Gofynnodd Arwel Johnston beth oedd wedi digwydd i'r 20 lle parcio gollwyd gydag adeiladu'r adeilad newydd- dywedodd ei fod wedi cael sicrwydd gan y cynghorwyr na fyddai colli llefydd parcio. Nid oedd pawb yn cytuno bod 20 o lefydd parcio wedi cael eu colli.

3. Diweddariad ar weithgareddau diweddar yn Ogwen – Guto Roberts

Yn ychwanegol i'r materion yn ymwneud â thraffig darllenodd ddiweddariad gan Dewi Roberts

- Wedi cwblhau 'spec' ar gyfer llwybr o Lyn Bochlwyd tuag at fwlch Tryfan.. Edrych am gyllid i wneud y gwaith dros y blynyddoedd nesaf.
- Drwy weithio mewn Partneriaeth gyda'r RSPB - mae 4 cae gwair wedi'u ffensio er mwyn creu ardaloedd/ cynefinoedd/bwyd ar gyfer Llinos y Mynydd. Mae tipyn o waith i'w wneud eto er mwyn addasu'r caeau i greu'r cynefin cywir.
- Tŷ Tal y Fraich wedi ei gwblhau gyda'r gobaith o'i osod i ymwelwyr yn y Gwanwyn. Lot o waith i'w wneud ar y trac cyn i'r ymwelwyr ddod
- Hofrennydd wedi cael ei ddefnyddio'r Haf yma gludo deunydd ar gyfer pontydd troed ar lwybr yn Nyffryn Mymbyr, codi cerrig ar gyfer waliau yn Nhyn y Maes ac ar gyfer gwaith llwybrau yn y Cwm.

Dywedodd Guto fod y cynllun Darganfod Dyffryn Ogwen wedi gorffen a bod noson lwyddiannus wedi ei chynnal yn dangos y ffilm yn Neuadd Ogwen.

4. Sefyllfa gyfredol ar y safle

Yn absenoldeb Edward Jones, darllenwyd ei adroddiad gan y cadeirydd
Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r broblem o doiledau yn blocio wedi datblygu i fod yn gyson. Rydym wedi darganfod fod cwymp yn y pwysedd (pressure) y cyflenwad dwr yn cyfrannu at y broblem. Gan nad ydy'r system 'Grey Water Harvesting' yn weithredol mae hyn yn cynyddu'r galw am ddŵr o'r cyflenwad, ac yn gwaethygu'r sefyllfa.

Dyluniwyd yr adeilad newydd i beidio cynnwys tanc dwr yn yr adeilad - golyga hyn na ellir cynyddu pwysedd (pressure) ar y cyflenwad dwr yn dod o'r llyn.

Bydd y Pennaeth Eiddo yn cyfarfod gyda dylunwyr wythnos nesaf i drafod opsiynau sut i gynyddu pwysedd ar y cyflenwad o fewn yr adeilad, a hefyd sut y gellir adfywio'r system 'Grey Water Harvesting'.

Bydd hefyd yn adolygu opsiynau tarddiad y cyflenwad dwr ac yn cynnal profion sgrinio metalau yn y nant sy'n dod o Lyn Idwal, sef yr hen gyflenwad.

Ychwanegodd Arwel Johnson bod y beipen dwr bellach yn 40 oed. Dywedodd fod yr adeilad newydd wedi cael i gynllunio ar gyfer system dwr 'mains' - a bod problemau yn deillio oherwydd nad oedd cyflewnad 'mains' ar gael.
Dywedodd Dewi Davies bod ganddynt danciau dwr wedi eu gosod tu ôl i adeilad Bwthyn Ogwen.

5. Dehongli ar y safle – yn absenoldeb Naomi Jones adroddodd y Cadeirydd

- cwmni wedi bod yn edrych ar y model 3D a'i bod yn disgwyl am eu hymateb ynghylch gwelliannau y gellid ei wneud iddo.
- Roddwyd cais ar ddefnyddio teledu i ddangos y ffilmiau yn yr adeilad - ond roedd problem gyda'r sgrin yn adlewyrchu gormod.
- Dywedodd Guto Roberts bod y broblem gyda'r gweld y ffilmiau pan oedd yr haul allan dal yn broblemus a'u bod yn dal i ystyried math o hwyl. Dywedodd ei fod wedi gweld math ar babell yn cael ei defnyddio yn Amgueddfa Burren Perfumer mewn Parc Cenedlaethol yn Iwerddon a'i fod

yn effeithiol iawn. Dywedodd Carys Dafydd y byddai'n son am yr hwyl gyda Naomi.

6. Diweddariad ar Fwthyn Ogwen – Dewi Davies

- Bwthyn Ogwen wedi cael blwyddyn lwyddiannus yn gweithio ar y cyd hefo Outward Bound yn ystod y tymor Ysgol.
- Mae'r paratoadau ar gyfer agor y caffi yn mynd rhagddynt - bydd y mynediad yn cael ei osod yn nhalcen yr adeilad gyda'r agoriad i fod i ddigwydd yn y Pasg.
- Bu Cwt y Ceidwaid yn llwyddiannus - y modd o weithio oedd bod un o'r ceidwaid yn aros yn y cwt gyda'r ceidwad arall yn mynd i fyny'r Cwm. Drwy weithio mewn rota roedd rhywun ar gael drwy'r amser. Mae'r adborth wedi bod yn dda iawn - 200 o bobl wedi dweud eu bod wedi mwynhau siarad gyda'r ceidwaid. Pan fydd y caffi ar agor bydd mwy fyth o gyswllt gyda'r ceidwaid.
- Mae'n fwriad i agor yr adwy er mwyn gwneud mwy o le i arddangos dehongli dengar - cyflwyno newidiadau'n araf bach er mwyn gweld be sy'n gweithio - arbrofi wrth fynd ymlaen.
  Gofynnodd Jonathan Cawley be oedd oblygiadau'r datblygiadau i Ganolfan Ogwen - atebodd Dewi ei bod yn bwysig nad oeddynt yn dyblygu gwasanaethau yn y ddau le.
- Gwnaed y pwynt bod mwy o gerbydau yn yr ardal ers i dîm yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol symud i weithio o Fwthyn Ogwen a bod eu cerbydau yn parcio ar y pafin . - Atebodd Dewi Davies nad oedd y parcio yn gweithio'n hollol iawn - ac mai am gyfnod byr y byddai Staff yr Ymddiriedolaeth yn parcio ar y pafin.

7. Diweddariad ar gais cronfa Treftadaeth y Loteri - y Carneddau - Jon Cawley.

- Newyddion da - bu'r cais am grant loteri'n llwyddiannus
- Prif nod y cynllun fydd i warchod a chael gwell rheolaeth o'r Carneddau

- Bydd partneriaeth yn cael ei chreu bydd yn dod a gwahanol gyrff i weithio gyda'i gilydd. Bydd llwyddiant yn y gwaith yn ddibynnol ar gydweithrediad ac ewyllys da'r tir feddianwyr - ni fydd yn rheidrwydd ar dir feddianwyr i ddod yn rhan o'r cynllun
- Bydd y gwaith yn cynnwys gwell mynediad; rheoli yn amrywiol gynefinoedd ; codi ymwybyddiaeth o'r dreftadaeth ddiwylliannol arbennig sydd yno
- Mae Bwrdd wedi cael ei sefydlu a bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf. Bydd manylder y cais yn cael ei ddatblygu dros y ddwy flynedd nesaf gyda'r gwaith yn dechrau ym mlwyddyn 3.
- Bydd dwy swydd yn cael eu creu am y ddwy flynedd gyntaf sef Swyddog Prosiect a Swyddog Gweinyddol
- Bydd Jon Cawley yn parhau fel Cyfarwyddwr

8. Unrhyw fusnes arall

- Dywedodd Gwyn Thomas ei fod eisiau codi mater y cwn anystywallt unwaith eto - am ei bod yn ymddangos nad oes dim yn cael ei wneud ynghylch y sefyllfa. Dywedodd Guto Roberts y byddai modd cael gwaharddiad yn ystod y tymor nythu os oedd arolwg adar yn dangos bod Llinos y Mynydd yn nythu yno - dyma'r unig ffordd y gellir gwahardd cwn o'r Warchodfa Natur.

  Ychwanegodd Arwel Johnson bod y sefyllfa yn mynd yn waeth - bod mwy o bobl yn dod a'u cwn yma. Dywedodd Dewi Davies bod dau warden tymhorol yn gweithio o Fwthyn Ogwen dros yr haf a'u bod hwy yn gallu cadw golwg i weld os oedd cwn dan reolaeth.

  Dywedodd Arwel Johnson nad oedd neb yn gweithio yng Nghanolfan Ogwen ar y penwythnos ac nad oedd hynny'n helpu pethau.

  Awgrymodd Gwyn Thomas y byddai'n syniad atgyfodi hen boster oedd yn dangos dafad wedi cael ei chnoi – ac y dylid ei roi at facebook a twitter.
- Awgrymodd Jonathan Cawley y dylai Partneriaeth Cwm Idwal drafod y mater a dod i fyny gydag argymhellion y gellid eu gweithredu.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 6.00y.h